Ddisgrifiad o'r Swydd

Teitl y swydd:	Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr
Yn atebol i:	Rheoli Gwirfoddolwyr
Grŵp(iau):	Cymorth, Buddsoddi
Cyflog:	Gradd C: £30,830 y flwyddyn yn codi i £32,674 y flwyddyn ar ôl cwblhau cyfnod prawf 6 mis yn llwyddiannus.
Lleoliad:	Mae gan CGGC bolisi gweithio'n hyblyg ar waith, sy'n golygu y gall ein pobl weithio cyfran o'u hamser yn ein swyddfeydd neu o bell (gan gynnwys gartref). Rydyn ni'n fudiad Cymru gyfan gyda chanolfannau swyddfa yn Aberystwyth, Caerdydd a'r Rhyl y gall staff eu defnyddio. Bydd angen mynychu rhai digwyddiadau staff a galwadau gwaith penodol yn ein swyddfeydd.
Gwyliau blynyddol:	25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau banc, a phum diwrnod drwy ddisgresiwn
Teithio:	Rydyn ni'n ffafrio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus; pan na fydd hyn yn gyfleus, caiff staff ddefnyddio'u cerbydau eu hunain neu ddefnyddio'r system rhentu ceir. Telir cyfraddau fesul milltir yn unol â'r cyfraddau a argymhellir gan Gyllid y Wlad
Oriau:	35 awr yr wythnos; hyblyg.
Pensiwn:	Bydd y swydd yn cael cyfraniad o 9% o'r cyflog blynyddol i gynllun pensiwn cymeradwy Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
Sgiliau iaith:	Byddai sgiliau Cymraeg yn ddefnyddiol ar gyfer y swydd.

NOD Y SWYDD

Fel aelod o'r Grŵp Cymorth a Gweithgareddau Gwirfoddoli byddwch yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith cyfathrebu, yr ymgyrchoedd a'r gweithgareddau ymgysylltu i roi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo'r gwaith dylanwadol a wneir drwy gynllun Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru (VWSG). Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y partneriaethau, yr ymchwil a'r adnoddau sy'n cael eu cynhyrchu/datblygu gan y rhai sy'n ennill grantiau yn cael eu defnyddio orau i gryfhau seilwaith gwirfoddoli yng Nghymru.

PRIF DDYLETSWYDDAU

Casglu gwybodaeth

- Gweithio gyda'r rhai sydd wedi ennill Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru i gasglu gwerthusiadau, adnoddau ac ymchwil, yn unol ag amodau cymeradwyo'u grantiau. Storio a chyhoeddi'r wybodaeth hon mewn storfa ganolog a sicrhau ei bod ar gael yn eang. Sicrhau bod dysgu a gwybodaeth o'r allbynnau hyn yn cael eu nodi a'u rhannu â rhanddeiliaid (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) fel y bo'n briodol, a chydweithwyr CGGC i lywio ein gweithgareddau rhoi grantiau gwirfoddoli a'n gweithgareddau gwirfoddoli (er enghraifft sesiynau gwirfoddoli gofod 3).
- Hwyluso a galluogi'r rheini sy'n ennill Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru i elwa ar gynnig gwirfoddoli ehangach Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), gan gynnwys defnyddio'r Hwb Gwybodaeth, Gwirfoddoli Cymru a Chyllido Cymru; aelodaeth o rwydweithiau gwirfoddoli perthnasol, mynediad at ddigwyddiadau, cyfleoedd hyfforddi a datblygu ac ati.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- Creu cynnwys perthnasol ynghylch Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru ar gyfer yr Hwb Gwybodaeth i ddosbarthu gwaith ymchwil, gwerthuso, adnoddau ac arferion gorau, a chynnal gweithgareddau ymgysylltu wedi'u targedu gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r cynnwys e.e. Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru, Rhwydwaith Ymarferwyr Gwirfoddoli a'r Grŵp Arweinyddiaeth Traws-Sector Gwirfoddoli .
- Sefydlu Cymuned Ymarfer ar gyfer y rheini sy'n cael Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth mewn perthynas ag ymchwil, gwerthusiadau ac arferion gorau, ac i alluogi gweithio mewn partneriaeth.
- Cydlynu cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol ar gyfer pum maes blaenoriaeth Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru i sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o'r cyllid sydd ar gael a galluogi gwelliant parhaus

Cyfathrebu ac ymgyrchoedd

- Cydlynu cynnwys diddorol o ansawdd uchel, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiadau cyfoethog staff a'r rheini sydd wedi cael Grant Strategol Gwirfoddoli Cymru

- Creu cynnwys diddorol fel astudiaethau achos, testun ar gyfer gwefannau, fideos, ffeithluniau a chyhoeddiadau ysgrifenedig

- Cefnogi'r rheini sy'n ennill Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru i rannu eu dysgu â'u rhwydweithiau, eu cymheiriaid a'u rhanddeiliaid (gan ddefnyddio asedau a chynnwys a ddatblygwyd yn y dyletswyddau uchod), a sicrhau bod negeseuon allweddol ac asedau cyfathrebu yn cael eu rhannu'n eang drwy sianeli cyfathrebu Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru.
- Cydlynu cyfranogiad Cymru mewn ymgyrchoedd gwirfoddoli cenedlaethol yn y DU e.e. Wythnos y Gwirfoddolwyr, yr Help Llaw Mawr, Diwrnod Pŵer Ieuenctid, paratoi a dosbarthu pecynnau ymgyrchu ac asedau cyfathrebu (gan gynnwys Grantiau Strategol Gwirfoddoli Cymru ac astudiaethau achos gwirfoddoli eraill CGGC a TSSW) i alluogi grwpiau rhanddeiliaid allweddol i ymhelaethu ar negeseuon. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Ymgysylltu i gynrychioli CGGC yn Is-grŵp Ymgyrchoedd Gwirfoddoli y DU. Cysylltu â thîm y Trydydd Sector yn Llywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf, ymateb i ymholiadau a chynnal ymweliadau Gweinidogol.
- Cyfrannu at gyfathrebu integredig ar draws amrywiaeth o sianeli, ac at waith ehangach y tîm.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau ychwanegol o dro i dro neu yn ôl y gofyn, wrth i anghenion y gwasanaeth neu'r mudiad ddatblygu.

MANYLEB YR UNIGOLYN

Mae'r canlynol yn ***sgiliau hanfodol*** (bydd ymgeiswyr sy'n methu arddangos y rhain ddim yn cael eu rhoi ar y rhestr fer)

1. Ymrwymiad i bwrpas CGGC..
2. Profiad amlwg o hwyluso a gweithio gyda rhwydweithiau rhanddeiliaid allanol
3. Tystiolaeth o sgiliau ysgrifennu copi rhagorol drwy enghreifftiau o waith ar draws sawl cyfrwng cyfathrebu, ar gyfer nifer o gynulleidfaoedd
4. Gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac ar bapur a gallu meithrin perthynas waith gadarnhaol gydag eraill ar bob lefel.
5. Sgiliau TG ardderchog, gan gynnwys profiad o ddefnyddio cronfeydd data, taenlenni, e-bost a phrosesu geiriau, Microsoft Office yn ddelfrydol. Sgiliau trefnu a chynllunio rhagorol gyda gallu amlwg i weithio'n hyblyg dan bwysau i gwrdd â therfynau amser, a llygad dda am fanylion.
6. Bod yn hunangynhaliol, yn drefnus iawn ac yn hyderus wrth reoli prosiectau o'r dechrau hyd at eu cyflawni.
7. Lefel uchel o hunan-gymhelliant a'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun.
8. Agwedd hyblyg tuag at newid cynlluniau gwaith ar fyr rybudd mewn ymateb i newidiadau mewn blaenoriaethau ac ymgymryd â thasgau heriol yn ôl yr angen i'r tîm ehangach a CGGC, yn cynnwys teithio wedi'i gynllunio.
9. Ymrwymiad i hyrwyddo diwylliant lle mae gwahaniaethu'n cael ei ddileu a darparu amgylchedd o gyfle cyfartal lle mae pawb yn cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y gall gweithlu a chymuned amrywiol ei wneud.

Mae'r canlynol yn ***sgiliau allweddol*** (mae angen y sgiliau hyn ar gyfer y rôl ond gellid eu hennill wrth wneud y swydd neu drwy hyfforddiant o fewn 6 mis i'r penodiad)

1. Gallu cynnal a diweddaru y CRM, tudalennau gwe a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill.
2. Dealltwriaeth o bolisi ac ymarfer Gwirfoddoli yng Nghymru.

Mae'r canlynol yn ***sgiliau dymunol*** (mae'r sgiliau hyn yn fanteisiol a byddent yn cyfoethogi'r cais)

1. Gwybodaeth am reoli prosiectau
2. Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn ddefnyddiol yn y swydd; disgwylir i'r ymgeisydd a benodir ddangos ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a chefnogi cydymffurfiaeth â nhw.